

Organydd o Ddolwyddelan yn ennill BEM



Hoffem estyn llongyfarchiadau mawr i Georgina Jones o Ddolwyddelan am ennill Medal yr Ymerodraeth Brydeinig yn rhestr yr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd eleni. Dw i'n siŵr y bydd holl drigolion y pentref yn ymuno â ni i'w llongyfarch ac yn teimlo braint fawr o fod yn byw ymysg merch mor ymroddgar.

Derbyniodd Mrs. Jones, cyn-organydd Eglwys Sant Gwyddelan, Dolwyddelan, BEM am ei gwasanaeth

gwirfoddol i'r Eglwys a'r gymuned gan y bu iddi chwarae'r organ yn Noldwyddelan am dros 75 mlynedd!

Dywedodd Georgina wrth BBC Cymru: *'Roedd derbyn yr anrhydedd yn sioc ac yn andros o annisgwyl pan gefais i'r llythyr. Dw i wedi bod yn mynd i'r eglwys drwy gydol fy oes gan chwarae mewn tri neu bedwar gwasanaeth ar Ddydd Sul. Roedd yr Eglwys yn rhan o fy mywyd'. Ychwanegodd 'Dw i wir wedi mwynhau chwarae'r organ. Fe wnes i ymddeol ar ddiwedd mis Ebrill a dw i'n colli mynd yn arw.'*



Georgina mewn llun o ffilm 'A Child's Christmas in Wales' 1966

Hoffai Georgina ddiolch i bawb am eu llythyrau, cardiau, blodau ac anrhegion. Bu iddi dderbyn llythyrau gan Carwyn Jones AC a Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Bydd Georgina yn derbyn y fedal mewn seremoni leol gan Arglwydd Raglaw y sir yna fe fydd hi'n mynychu parti Gardd Palas Buckingham ym mis Mai.

Y Gwydyr ... Noson Pysgod a Sglodion ydy Nos Wener!

Maen nhw hefyd yn cynnig gwasanaeth 'Pryd ar Glyd' arbennig.

6.00yh tan 9.00yh

Cofiwch ffonio gyda'ch archeb yn gyntaf - **01690750303**

Penfras a Sglodion yn y bwyty £6.50

I fynd £5.50



Llogi'r pafiliwn neu ystafell Gwyddelan

Ar werth yn y pafiliwn:

	Busnes/ Masnachol	Aelodau Elusen / Lleol
Bob Awr	£25	£10
Hanner Diwrnod	£50	£15
Diwrnod Llawn	£75	£30

Cardiau cyfarch
Paentiadau

Llyfrau cerdded
Jane's Tasty Cakes